



RhannuCeirCaerdydd.com

Cylchlythyr

Cyngor Caerdydd: Ffôn (029) 2087 3722

Hydref 2008

Rhifyn 8

Croeso i gylchlythyr hydref RhannuCeirCaerdydd.com

CYNNWYS:

- Eco-yrru
- Newyddion Aelodau
- Dyddiau'r hydref

Gall rhannu eich siwrnai i'r gwaith eich helpu i arbed arian a lleihau problemau parcio yn eich gweithle. Trwy ddefnyddio'r wefan hon, gallwch rannu siwrneiau trwy gerdded, seiclo, neu ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â char. Cynllun dwyieithog Rhannu Siwrnai Cyngor Caerdydd yw **RhannuCeirCaerdydd**. Mae'r cynllun yn rhoi ffordd hwylus i'w aelodau i ddarganfod cydymaith teithio.

Dyddiau'r hydref

Gyda dyfodiad yr hydref a nosweithiau tywyll, y dewis hawdd fyddai rhoi'r gorau i ddulliau actif o deithio nes daw'r tywydd brafiach yn ei ôl! Os ydych chi'n mentro allan, cofiwch wneud yn siŵr eich bod yn barod.



Wrth seiclo mewn tywyllwch, mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn crybwyll yr angen i ddefnyddio goleuadau blaen gwyn, a choch yn y cefn, yn ogystal ag adlewyrchyd coch yn y cefn. Mae hefyd yn awgrymu defnyddio adlewyrchydion blaen gwyn, adlewyrchydion ar fraich yr olwynion a dillad/adnoddau adlewyrchol er mwyn eich gwneud yn fwy gweladwy. Bydd y rhain hefyd o fudd i gerddwyr er mwyn sicrhau eu bod yn weladwy, yn enwedig pan fydd diffyg golau stryd.

Newyddion UWIC



Cardiff's metropolitan university
prifysgol metropolitan Caerdydd

Lansiwyd Rhan Dau Cynllun Teithio UWIC ym mis Hydref gan yr Is-ganghellor. Cefnogwyd hyn gan lu o weithgareddau, er enghraifft, dosbarthu'r 'Newyddion Teithio i Fyfyrrwyr' er mwyn annog myfyrrwyr i adael eu ceir gartref, a chynnig opsiynau ymarferol iddynt; rhoi cyflwyniadau am deithio i fyfyrrwyr yn ystod Sgyrsiau Sefydlu mewn Ysgolion, a chynnal y digwyddiad 'WOW' (gyda chyfarchiad gan yr Is-ganghellor), ble enillwyd 4 beic mynydd, pedometrau, pebyll codi'n sydyn a siocled gan y 1000 o fyfyrrwyr y glas a ddaeth i'r digwyddiad.



Digwyddiad WOW UWIC

RhannuCeirUWIC



Erbyn hyn, mae 57 o grwpiau rhannu ceir gweithredol ymhlith myfyrwyr. Mae'r galw cynyddol am fannau parcio rhannu ceir wedi golygu ychwanegu dau fan parcio ar Gampws Llandaf, sy'n dod â chyfanswm y campws i 10. **Bws UWIC**



Lansiad gwasanaeth Bws newydd UWIC

"Mae'n gynt na gyrru, oherwydd y lonydd bysus a ballu!" Lucy Clark, Myfyrwraig Gwaith Cymdeithasol Ail Flwyddyn Ym mis Medi lansiwyd y Gwasanaeth Llwybr Carlam, sy'n cysylltu'r Rhath/Cathays â Champws Llandaf gyda gwasanaeth bws bob 20 munud ar gyfartaledd. Ariennir y gwasanaeth yn llwyr gan UWIC ac mae'n denu 800 o deithwyr bob wythnos. Mae'r gwasanaeth hwn yn agored i aelodau'r cyhoedd. Mae tocynnau Bws UWIC wedi

cyrraedd lefelau anhygoel, gyda 1995 wedi'u gwerthu hyd yma, 150 yn fwy na'r amser hyn y llynedd. Mae pryniannau staff hefyd wedi codi o 25 i 31. Mae nifer y trwyddedau Staff Rhwng Campysau, y gellir eu defnyddio i deithio am ddim rhwng y campysau ar y Bws yn ystod y diwrnod gwaith, wedi codi i 12 yn y pedwar campws.

SeicloUWIC

Ym mis Hydref, cynhaliwyd cyfle arall i brynu beiciau ar gyfer cynllun Seiclo i'r Gwaith UWIC, a chodwyd yr uchafswm gwario i £1000. Mae 43 aelod o staff wedi prynu beic drwy'r cynllun erbyn hyn. Cafwyd pythefnos o frecwast am ddim i staff oedd wedi seiclo i'r gwaith ar ddechrau'r tymor. Cymerodd 107 aelod o staff ran (8% o'r holl staff) a hawliwyd 493 brechwast - 49 brechwast y dydd ar gyfartaledd.

Roedd bag BUG hefyd ar gael, a oedd yn cynnwys cynnyrch iachus i seiclwyr - ffrwythau, sudd, bariau grawnfwyd, ayb - yn ogystal â'r dewis o frechwast llawn. Mae wythnos arall yn mynd i gael ei hychwanegu at y calendr, a bydd hyn yn golygu bod seiclwyr yn

gallu cael brechwast am ddim bedair wythnos y flwyddyn!



Newyddion Teithio i Staff



Mae cylchlythyr 'Newyddion Teithio i Staff' wrthi'n cael ei ddatblygu i gyd-fynd â'r 'Newyddion Teithio i Fyfyrwyr' presennol. Mae'n darparu gwybodaeth ymarferol ar sut i ddefnyddio dulliau eraill o deithio rhwng safleoedd yn ogystal â diweddariadau ynghylch y gwaith cynllunio teithio sy'n cael ei wneud.

Newyddion CMC



Ym mis Ionawr 2009, bydd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a'r côr yn symud i'w cartref newydd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, ac yn ymuno â'r saith cwmni preswyl arall sydd ar y safle saith erw. Mae'r Gerddorfa yn aelodau o gynllun RhannuCeirCaerdydd yn barod a byddant yn ymuno â thua 1000 o weithwyr llawn amser ar y safle sydd bellach â mynediad i Gynllun RhannuCeirCaerdydd wedi iddo gael ei lansio'n swyddogol. Mae'r Ganolfan yn gweithio â'r holl gwmnïau preswyl i rannu siwrneiau ac ar fentrau cynllunio teithio ehangach. Er enghraifft, mae'r Ganolfan wedi datblygu Grŵp Seiclwyr, a fydd yn cael ei ehangu i gynnwys y cwmnïau preswyl. Mae rhaglen o ddigwyddiadau hyrwyddo wedi'i pharatoi ar gyfer 2009 i ychwanegu at lwyddiant y cynllun rhannu siwrneiau hyd yma, ac i godi ymwybyddiaeth.

Newyddion Hyder



Ym mis Awst 2008, cyflwynodd Swyddfeydd

Ymgynghori Hyder yn Llanelwng Fannau Parcio Rhannu Ceir yn ei swyddfeydd. Mae'r 4 man parcio, sydd ar gyfer gweithwyr Hyder yn unig, wedi'u lleoli yn agos at brif fynedfa'r swyddfeydd ac yn adlewyrchu poblogrwydd y cynllun RhannuCeirCaerdydd.

Ymddiriedolaeth GIG Felindre



Ym mis Medi, lansiodd Ysbyty Felindre ei Gynllun Teithio'n swyddogol, a daeth sefydliadau partner i gefnogi'r ymgyrch, gan gynnwys Traveline Cymru a RhannuCeirCaerdydd. Mae digwyddiadau tebyg wedi'u cynllunio wrth i ddatblygiadau ar y safle fynd yn eu blaen. Mae gwaith wedi hen ddechrau ar gyfer creu mesurau yn ymwneud â'r Cynllun Teithio. Er enghraifft, penodwyd darparwr seiclo i'r gwaith er mwyn hyrwyddo mwy o seiclo i'r gwaith. Mae'r Cynllun Rhannu Siwrnai yn boblogaidd ac erbyn hyn mae safleoedd eraill yn Ymddiriedolaeth Felindre wedi'u hychwanegu at y cynllun.

Newyddion Cyngor Caerdydd

Mae Project Teithio Actif

Cyngor Caerdydd yn mynd o nerth i nerth, ac mae nifer o fentrau newydd ar y gweill yn dilyn cynnig llwyddiannus am gyllid gan Gyngor Chwaraeon Cymru.



Mae loceri newydd ar gyfer staff sy'n defnyddio dulliau actif o deithio wedi'u gosod yn Neuadd y Ddinas a Neuadd y Sir ac mae'r gwaith o osod lloches ddiogel dan do i feiciau yn Neuadd y Ddinas ar gychwyn. Mae darparwr ar gyfer Cynllun Seiclo i'r Gwaith y Cyngor wedi ei benodi a bydd cyfle i brynu yn y flwyddyn newydd. Trwy ddefnyddio grant Sustrans sy'n gysylltiedig â'r Cyngor Chwaraeon, mae nifer o sesiynau hyfforddi seiclo hefyd ar gael i weithwyr yn Neuadd y Sir er mwyn caniatáu staff i ddefnyddio'r cynllun seiclo. Mae Cynllun Benthyc Pedometrau hefyd ar fin cychwyn. Gall gweithwyr sydd am godi eu lefelau cerdded fenthyc pedometr am 6 wythnos i'w helpu i fonitro eu cynnydd! Mae pedometrau hefyd yn cael eu dosbarthu i staff newydd drwy'r Pecyn Sefydlu Teithio Actif.

Eco-yrru -



Gyda chyflwr ansefydlog presennol yr economi, mae nifer o bobl yn chwilio am ffyrdd o leihau gwariant. Gall rhannu ceir wneud cyfraniad mawr at leihau eich costau teithio, ond mae ffyrdd eraill y gellwch arbed arian ar eich biliau tanwydd. Gall defnyddio eco-yrru neu dechnegau 'gyrru craff' leihau eich defnydd o danwydd, sy'n golygu bod y siwrneiau sy'n rhaid i chi eu gwneud mewn car yn fwy effeithlon!

- Tynnwch unrhyw gyfarpar diangen (e.e. rhesel to) sy'n gallu effeithio ar aeroddynameg y car ac

effeithlonrwydd tanwydd.

- Mae siwrneiau byr yn llai effeithlon gan fod injan oer yn defnyddio mwy o danwydd. Ceisiwch ddefnyddio dulliau teithio gwahanol ar gyfer y siwrneiau hyn.

- Ceisiwch beidio defnyddio'r system aerdymheru gan ei fod yn defnyddio llawer o danwydd.

- Gyrrwch yn esmwyth, ar gyflymder cyson ac osgoi brecio sydyn. Cynlluniwch eich teithiau o flaen llaw i osgoi tagfeydd, gweithfeydd a mynd ar goll!



(I gael rhagor o wybodaeth, ewch i

<http://www.energysavingtrust.org.uk/What-can-I-do-today/Smarter-driving>). (Lluniau trwy garedigrwydd FreeFoto.com)



Poster Newydd!

Cadwch lygad am y Poster Rhannu Siwrnai newydd. Pam nad anogwch ffrindiau a theulu i ymuno â'r cynllun? Cofiwch y gall rhannu eich siwrnai fod o fudd i chi, ein Dinas a'r blaned!

Gwybodaeth Ddefnyddiol:

Gwybodaeth am Ddiogelwch y Ffyrdd: www.roadsafety.caerdydd.gov.uk/uned-diogelwch-y-ffyrdd

Cwmnïau Teithio:

Bws Caerdydd: www.cardiffbus.com

Trenau Arriva: www.arrivatrainswales.co.uk

National Rail Network: www.nationalrail.co.uk (ffôn 08457 48 49 50)

Cynllunio ar gyfer Teithio:

Traveline Cymru: www.traveline-cymru.org.uk

Ffynonellau Eraill:

Dolenni Teithio y BBC: www.bbc.co.uk/wales/southeast/travel

Gwybodaeth am ysgrifennu Cynlluniau Teithio:

Gwefan: www.caerdydd.gov.uk/cynlluniateithio - e-bost: travelplans@cardiff.gov.uk

Gwybodaeth am Strategaeth Trafnidiaeth y Cyngor: www.keepingcardiffmoving.co.uk